

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

SWYDD-DDISGRIFIAD

ADRAN	Ystadau
SWYDD	Rheolwr Strategaeth Eiddo SWYDD WEDI'I CHYFYNGU'N WLEIDYDDOL
RHIF Y SWYDD	NU429
GRADD	Gradd 18
LLEOLIAD	Pencadlys GTADC
YN GYFRIFOL I'R	Pennaeth Cyllid, Caffael ac Eiddo
YN GYFRIFOL AM	Staff Gwasanaethau Eiddo
CYFRIFOLDEB AM ADNODDAU CORFFOROL	Portffolio Eiddo
CYFRIFOLDEB AM ADNODDAU ARIANNOL	Oes

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn yn ôl y gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth

PRIF BWRPAS Y SWYDD

I fod yn gyfrifol am holl agweddau rheoli eiddo ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Prif Ddyletswyddau:

1. I adnabod a chaffael tir ac/neu adeiladau sy'n addas ar gyfer codi neu drawsnewid gorsafoedd tân i gwrdd â gofynion unrhyw Fodel Adolygu Cwmpasiad Tân yr ymgymerir ag hwy gan y Gwasanaeth.
2. I adnabod a chaffael tir ac/neu adeiladau sydd eu hangen gan y Gwasanaeth i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol.
3. I waredu'r holl adeiladau a thir gweddill.
4. I reoli'r holl brosiectau'n ymwneud ag adeiladau newydd, arwain y tîm cynllunio a rheoli ymgynghorwyr a chontractwyr hyd y cam cwblhau

5. I oruchwylio cynnal ac ailwampio'r holl eiddo yn y portffolio ynghyd â rheoli pob cyfleuster strwythurol.
6. I gynghori Cyfarwyddwyr, Uwch Swyddogion ac Aelodau Awdurdod Tân ynghylch pob mater sy'n ymwneud ag eiddo.
7. I ddarparu cyfarwyddyd gwerthuso i'r sefydliad, drafftio cytundebau datblygu a negodi â datblygwyr ac eraill, yn ôl y gofyn.
8. I reoli'r gyllideb gyfalaf a refeniw a ddyanwyd yn effeithiol, a chyfrannu'n effeithiol i'r broses gosod cyllidebau.
9. I reoli'r Adran Eiddo'n yn effeithiol gan sicrhau y cyflawnir cynhaliaeth a gynlluniwyd ac ymatebol yn ogystal â holl ofynion statudol mewn perthynas ag eiddo.
10. I ddatblygu a chynorthwyo gyda datblygiad cynlluniau corfforaethol, adrannol a thîm i gwrdd â nodau ac amcanion y Gwasanaeth.
11. I gynrychioli'r Gwasanaeth mewn perthynas â materion eiddo ar weithgorau/grwpiau/pwyllgorau mewnol ac allanol gan gydweithio ag eraill yn ôl y gofyn.
12. I hyrwyddo ac ymgorffori materion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd o weithgarwch gwasanaethau eiddo a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y Gwasanaeth, gan herio ymddygiad agweddau a gwahaniaethu amhriodol bob adeg.
13. I hyrwyddo ac ymgorffori cynaliadwyedd ym mhob agwedd o eiddo, gan gynnwys nodweddion dylunio, rheoli ynni, rheoli gwastraff a gwella bioamrywiaeth ar ein safleoedd.
14. Ufuddhau a hyrwyddo arfer a nodir ym mholisiâu lechyd a Diogelwch a Chyfle Cyfartal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
15. Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r swydd a'r radd.

Gofynion Gwasanaeth Safonol:

1. I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl y gofyn.
2. Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd
3. I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth ill dau.
4. I weithredu egwyddorion Polisiâu'r Gwasanaeth mewn perthynas â Chyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg y wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.

5. I ufuddhau i ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol ac i gymryd gofal rhesymol am eich Iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â phobl eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

Gwerthoedd Sefydliadol

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo gwerthoedd craidd y Gwasanaeth i fod, ar bob adeg:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

